



# Polisi Sylweddau ac Ysmygu (mewn nadlu/ *vaping*)



<b>Enw'r Ganolfan: Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin</b>	<b>Rhif y Ganolfan: 68220</b>
<b>Mabwysiadwyd y Polisi gan y Corff Llywodraethol: 31/3/22</b>	
<b>Dyddiad adolygu'r polisi: Mawrth 2023</b>	

# Polisi Sylweddau

## Nodau

- Nid yw'r ysgol yn goddef camddefnyddio cyffuriau, gan gynnwys ysmegu, mewnanadlu ac yfed alcohol gan aelodau'r ysgol, nac ychwaith yn goddef cyflenwi'r sylweddau hyn yn anghyfreithlon ar dir yr ysgol.
- Mae'r ysgol yn ymroddedig i iechyd a diogelwch ei haelodau a bydd yn cymryd camau i ddiogelu eu lles
- Mae'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd ei rôl fugeiliol yn ymwneud â lles pobl ifanc a bydd yn ceisio perswadio pobl ifanc sydd angen cymorth i ddod ymlaen.
- Mae'r ysgol yn cymryd agwedd o blaid gweithredu ar y mater hwn, ac yn credu bod addysg iechyd yn rhan hanfodol o Addysg Bersonol a Chymdeithasol pob disgybl.
- Mae'r egwyddor o rannu'r cyfrifoldeb am addysg pobl ifanc gyda rhieni'n hanfodol i werthoedd ar arfer ein hysgol, drwy adael iddynt wybod beth sy'n digwydd a'u cynnwys yn yr hyn sy'n mynd ymlaen bob amser.
- Cydnabod bod nifer y bobl ifanc sy'n defnyddio ac yn camddefnyddio sylweddau gan gynnwys ysmegu, mewnanadlu ac yfed alcohol yn cynyddu, fe'i hystyrir yn bwysig i gydnabod bod niferoedd mwy o bobl ifanc yn dewis peidio â defnyddio a chamddefnyddio sylweddau. Byddwn yn parhau i gefnogi eu gwahanol anghenion.
- Mae'r cynnydd mewn disgyblion sydd yn 'mewnanadlu' yn dilyn y cyfnod clo 2020-2021 yn achos penodol o gonsyrn.

## Amcanion

Rydym yn credu ac yn cefnogi'r nodau addysgol canlynol mewn perthynas â defnyddio a chamddefnyddio sylweddau gan gynnwys ysmegu, mewnanadlu ac yfed alcohol

- galluogi disgyblion i wneud dewisiadau iach a gwybodus drwy gynyddu gwybodaeth, herio agweddau a datblygu ac ymarfer sgiliau;
- darparu gwybodaeth gywir am sylweddau gan gynnwys ysmegu, mewnanadlu ac yfed alcohol; cynyddu dealltwriaeth ynglŷn â'r goblygiadau a'r canlyniadau posibl o'u defnyddio;
- annog dealltwriaeth i'r rhai hynny sydd yn defnyddio neu'n debygol o ddefnyddio sylweddau gan gynnwys ysmegu, mewnanadlu ac yfed alcohol;
- ehangu dealltwriaeth am faterion iechyd a materion cymdeithasol perthynol e.e. rhyw a rhywioldeb, trosedd, HIV ac AIDS ;
- ceisio lleihau'r peryglon sy'n wynebu defnyddwyr a defnyddwyr posibl;
- galluogi pobl ifanc i adnabod ffynonellau o gefnogaeth bersonol addas.
- Mae'r ysgol yn cyd-weithio'n weithredol ag asiantaethau eraill fel Heddlu Dyfed Powys, y Gwasanaethau Cymdeithasol, AALI ac Asiantaethau Iechyd a Chyffuriau e.e. SUDDS i gyflwyno'i hymrwymiad i Addysg Gyffuriau a delio â digwyddiadau o gam-drin a chamddefnyddio sylweddau. Bydd ymwelwyr sy'n cefnogi'r ysgol yn cael gwybod am y gwerthoedd sydd yn y polisi hwn.

## Dulliau Gweithredu

### Cyfnod Allweddol 3

- Cyflwyno'r rhaglen iechyd a lles Emosiynol yn ystod gwersi ABCh.

Yng Nghyfnod Allweddol 3 bydd disgyblion yn derbyn gwybodaeth a deall:

- am yr effeithiau a'r peryglon sy'n codi wrth ddefnyddio amrywiaeth o sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon a'r gyfraith sy'n rheoli eu defnydd.

### Cyfnod Allweddol 4

- Deall canlyniadau personol, cymdeithasol a chyfreithiol defnyddio sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon.

## **Cyfnod Allweddol 5**

- Derbyn cyfrifoldeb am ddewisiadau personol ynghylch ffordd o fyw yng nghyd-destun iechyd corfforol a lles emosiynol, a hynny mewn modd beirniadol, gan ystyried canlyniadau byr-dymor a hir-dymor penderfyniadau o'r fath.
- Gweler Rhaglen ABCh

Tu fewn cwricwlwm yr ysgol bydd y pynciau canlynol yn cyfrannu tuag at addysgu rhaglen sylweddau:-  
Gwyddoniaeth, Addysg Gorfforol a gwersi lles.

## **Camau y mae'r ysgol i'w cymryd wrth ymateb i achos o gamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys ysmegu, mewnanadlu ac yfed alcohol**

### **Camau brys**

1. Rhoi Cymorth Cyntaf ac, os oes angen, trefnu iddo/iddi fynd i'r ysbyty.
2. Symud sylweddau amheus i fan diogel.
3. Aelodau o staff i hysbysu'r Pennaeth

### **Camau i'w cymryd gan y Pennaeth**

1. Lle mae cyffuriau anghyfreithlon wedi cael eu defnyddio – bydd yr ysgol yn gweithredu polisi 'dim goddefaint' fel arfer, ac yn diarddel (mewnol/allanol) am gyfnod.
2. Hysbysu'r rhieni.
3. Hysbysu'r Swyddfa Addysg a Chadeirydd y Corff Llywodraethol.
4. Cysylltu gyda'r heddlu mewn achosion o ddelio mewn cyffuriau o'r fath ar dir yr ysgol.

### **Gweithredu Tymor Hir – Awgrymiadau i'w rhoi i ddisgyblion a rhieni**

1. Awgrymu wrth y sawl fu'n defnyddio sylweddau gan gynnwys ysmegu, mewnanadlu ac yfed alcohol i helpu ei hun drwy geisio cyngor a gwybodaeth gan arbenigwyr megis: UDDS, PRISM, AA a Swyddogion Hybu Iechyd yr Awdurdod – Gwennan Williams
2. Ceisio cymorth gan asiantaethau allanol. Gall eu harbenigedd hwy arbed staff rhag gwastraffu amser.
3. Cynnig cymorth y Cwnselydd ysgol i'r unigolyn.

## **Canllawiau ar gyfer ymdrin â digwyddiad penodol**

### **Camau i'w cymryd gan staff yr ysgol**

Bydd y camau gweithredu ar lefel ysgol ar gyfer ymdrin â disgyblion yr amheuir eu bod yn camddefnyddio cyffuriau neu dddyddion, neu fewnanadlu yn cael eu penderfynu gan y salwch sy'n deillio o wneud hynny a chyflwr y disgybl.

1. Lle mae aelodau o staff yn amau bod disgybl neu grŵp o ddisgyblion yn camddefnyddio cyffuriau neu dddyddion neu'n mewnanadlu neu yn dioddef yn sgil hynny, rhaid iddynt hysbysu'r Pennaeth waeth beth yw'r drefn fugeiliol o fewn yr ysgol a bydd gofyn i'r camau gweithredol cyntaf adlewyrchu cyflwr y disgybl:
  - (a) Yn sâl iawn – rhoi cymorth cyntaf a threfnu iddo/iddi fynd i'r ysbyty.
  - (b) Ddim yn sâl iawn – ymateb bugeilio a chyfreithiol.
2. Mewn achosion o salwch difrifol, hysbysu'r rhieni ac anfon y disgybl yn syth i'r ysbyty.

**3.** Bydd y camau dilynol yn yr ysgol yn dilyn patrwm cyffelyb ym mhob achos:

- a)** Lle mae yna amheuan fod cyffuriau anghyfreithlon wedi cael eu defnyddio gall y Pennaeth geisio cyngor gan yr Awdurdod Addysg cyn penderfynu os oes angen hysbysu'r Heddlu. Dylai'r Pennaeth gadw unrhyw ddeunyddiau y tybir eu bod yn gyffuriau anghyfreithlon o mewn man diogel i'w rhoi i'r heddlu ar y cyfle cyntaf. Mewn achos o ysmegu neu fewnanadlu efallai y bydd ymdrin gyda'r mater yn fewnol yn atal y disgybl rhag gorfod wynebu canlyniadau mwy difrifol.

**D.S.** Bydd yn amhosibl i'r Awdurdod ddarparu adnoddau digonol i ymdrin â phroblem gynyddol oni fydd ganddo ddarlun clir a llawn o bob digwyddiad. Mae'n orfodol ar benaethiaid i ddarparu cyngor a chyfarwyddyd ar gyfer disgybl fu'n camddefnyddio cyffuriau a thoddyddion er mwyn:

- a)** helpu'r disgybl tuag at ffordd o fyw fwy iachus.
- b)** lleihau'r perygl o ymwneud â chyffuriau i'w gyd-ddisgyblion
- c)** bydd gofyn i staff bugeiliol yn yr ysgol drafod y sefyllfa gyda'r disgybl a'i gyfoedion er mwyn cael syniad o natur a maint y digwyddiad.
- d)** bydd gofyn i'r ysgol gysylltu â'r rhieni a'u gwahodd i ddod i mewn i drafod yn y gobaith y gellir eu darbwylo i gymryd cyfrifoldeb ar y cyd â'r ysgol am ddarparu cyngor a chyfarwyddyd ar gyfer y disgybl. Bydd gofyn i'r rhieni fod yn gyfarwydd ag ymateb uniongyrchol a thymor hir yr ysgol i'r problem.
- e)** elio gyda disgybl
- f)** bydd gofyn i bob achos gael ei ystyried ar ei ben ei hun gyda'r holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chymryd i ystyriaeth e.e. problemau cymdeithasol/problemau teuluol.
- g)** mae gofyn ystyried anghenion yr holl ddisgyblion yn yr ysgol.
- h)** dylid cynnig y dewis o geisio cyngor proffesiynol i'r disgybl.

**D.S.** Bydd llawer o'r disgyblion sy'n camddefnyddio sylweddau gan gynnwys ysmegu, mewnanadlu ac yfed alcohol **ond yn gwneud hynny unwaith** – dylid ymgynghori â'r holl asiantaethau perthnasol cyn dod i benderfyniad terfynol.